

## CYFFES FFYDD

### 19. Am eiriolaeth Crist.

Mae Crist yn natur ei bobl, yn eiriol drostynt bob amser gerbron y Tad (a). Fe roddodd Crist, pan oedd yma ar y ddaear, gynllun rhagorol o natur ei eiriolaeth yn y nefoedd (b). Yr oedd eiriolaeth Crist dros ei bobl y pryd hwnnw yn cael ei dwyn ymlaen mewn modd addas i sefyllfa ei ddarostyngiad; ac felly y mae ei eiriolaeth yn y nefoedd yn awr yn addas i'w sefyllfa ogoneddus ar ddeheulaw y Tad (c). Y mae Crist yn eiriol ger bron ei Dad ei hun a Thad ei bobl (d); a Pherson yr Eiriolwr yn anfeidrol ogoneddus, yn annwyl, ac yn gymeradwy gyda'r Tad (e), a'i eiriolaeth yn gwbl gyfiawn, gan ei bod yn eiriolaeth Iesu Grist y cyfiawn, ac mai efe yw yr lawn (f). Ac y mae yn eiriol dros y rhai y mae y Tad ei hun yn eu caru (g): y mae yn eiriolaeth lwyddiannus ac effeithiol; ac nid yn unig dros ei eglwys yn gyffredinol, ond hefyd dros bob un o'i bobl yn neilltuol, yn eu holl amgylchiadau a'u temtasiynau, er cynhaliaeth a chynnydd eu holl rasau, fel na ddiffygiont (h). A thrwy rinwedd ac effeithioled ei eiriolaeth ef y cedwir hwynt yn heddwch a ffafr Duw, ac y derbynnir eu gwasanaeth yn gymeradwy ger bron Duw.(i)

### **19. Of the Intercession of Christ.**

*Christ, in the nature of his people, ever makes intercession for them before the Father (a). When on earth Christ furnished us with a beautiful pattern of his intercession in heaven (b). The intercession of Christ on earth was adapted to his state of humiliation; and, in like manner, his*

*intercession in heaven befits the glory of his exaltation to the right hand of the Father (c). Christ intercedes before his Father and his people's Father (d); the Person of the Advocate is infinitely glorious, and beloved and accepted by the Father (e); his intercession is perfectly righteous, because it is the intercession of Jesus Christ the righteous, and because he is the Propitiation (f); and he intercedes for those whom the Father himself loves (g). His intercession is, therefore, effectual and all-prevailing. He intercedes not only for his church generally, but also for every one of his people individually, in all their circumstances and temptations, for the maintenance and increase of all their graces, that they faint not (h). It is through the virtue and efficacy of his intercession they are kept in the peace and favour of God, and their service is acceptable before God (i).*

**(a) 1 Ioan/1 John 2:1.**

**(f) 1 Ioan/1 John 2:2.**

**(b) Ioan/John 17.**

**(g) Ioan/John 16:27.**

**(c) Heb. 1:3, 8:1, 9:24, 10:12, 12:2. (h) Ioan/John 17:24, 18:9;**

**Luc./Luke 22:32.**

**(d) Ioan/John 20:17.**

**(i) 1 Bren./1 Kings 8:22-53;**

**Dat./Rev.8:3,4. [gadewir allan yn**

**arg.1900 ed.(Welsh) omits]**

**(e) Math./Matt. 17:5.**